# Adroddiad Arolygu

**Clwb Ysgol Iau Llangennech**

**Ysgol Iau Llangennech**
**Llangennech**
**Llanelli**
**SA14 8YB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

9/8/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chlwb Ysgol Iau Llangennech

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal y tu allan i oriau ysgol |
| Darparwr cofrestredig | Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyfyngedig |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 3 Awst 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn gyfforddus yn y lleoliad. Mae ganddynt ymrwymiadau hoffter cadarnhaol â’r staff ac maent yn datblygu cyfeillgarwch cryf â'u cyfoedion. Mae'r plant yn gwneud penderfyniadau ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael iddynt.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith yn y lleoliad er mwyn diogelu a hyrwyddo llesiant y plant. Mae'r staff gofal yn darparu amgylchedd magwrol a gofalgar. Maent yn deall ac yn diwallu anghenion unigol y plant.

Mae'r plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân. Mae'r staff gofal wedi nodi a dileu risgiau diangen i'r plant cyn belled ag y bo'n bosibl. Mae gan y plant fynediad at ddodrefn, offer, teganau a deunyddiau sy'n briodol ac yn addas i'w hanghenion. Mae'r adnoddau o ddyluniad addas ac mewn cyflwr addas ac yn cael eu cynnal a’u cadw’n dda.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddatganiad o ddiben clir sy'n disgrifio'r weledigaeth ar gyfer y lleoliad yn dda. Maent yn cefnogi a herio pawb yn weithredol i wneud eu gorau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio diogel a thrylwyr er mwyn sicrhau bod yna ddigon o staff gofal cymwysedig a phrofiadol ar gyfer yr ystod o blant sydd yn eu gofal.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â sut maent yn treulio eu hamser yn y clwb ac yn gallu arwain eu chwarae eu hunain. Mae'r plant yn hyderus i gychwyn gemau ac yn gofyn am gymorth gan y staff gofal pan fo angen. Gwelsom blant a staff yn cymryd rhan mewn sgyrsiau cyfeillgar a chefnogol ac roedd yn amlwg bod y staff yn gwrando ar y plant ac yn ystyried eu barn gan amlaf. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn gallu gwneud yr hyn y maent yn dewis ei wneud ac yn gofyn amdano, a bod y staff gofal yn barod iawn i'w cynorthwyo. Pan oedd plentyn wedi gorffen tynnu llun, gofynnwyd iddo os byddai'n bosib ei arddangos yn y ffenestr. Atebodd, “Na, rydw i eisiau mynd ag e adref.” Parchwyd hyn a rhoddodd y plentyn y llun yn ei fag. Mae'r plant yn fodlon ac yn ymgartrefu'n sydyn pan fydd y staff gofal yn eu croesawu wrth gyrraedd. Mae ganddynt gydberthynas glos gydag oedolion cyfarwydd sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel ac i ymlacio. Mae bron pob un o'r plant yn hapus chwarae ochr yn ochr â'i gilydd.

Mae'r plant yn gwerthfawrogi eu hamser yn y lleoliad. Dywedodd nifer o blant wrthym eu bod yn mwynhau'r cyfle i gyfarfod â ffrindiau a gwneud ffrindiau newydd o ysgolion eraill. Mae ganddynt gydberthynas dda â’r staff gofal, a chlywsom y plant yn rhannu gwybodaeth am eu teuluoedd a’u gwyliau arfaethedig gyda nhw. Mae plant o ystod oedran eang yn defnyddio'r gwasanaeth ac, yn gyffredinol, mae'r plant hŷn yn cefnogi'r plant iau a chânt eu gweld fel modelau rôl. Mae'r plant yn deall sut y disgwylir iddynt ryngweithio, a chaiff y plant hŷn eu hatgoffa am ymddygiad afreolus neu redeg o dan do, ble y mae angen bod yn ystyriol o'r plant iau. Mae'r plant hŷn yn gwrtais ac yn foesgar ac yn arddangos i'r plant ieuengach sut i ymddwyn mewn modd derbyniol. Er enghraifft, pan wnaethom ddal y drws ar agor iddynt, fe wnaethant ymateb drwy ein diolch.

Mae'r plant yn dewis o ystod dda o weithgareddau sy'n ysgogol ac yn ddiddorol. Mae llawer o'r plant iau yn manteisio ar weithgareddau tynnu llun a lliwio, gemau bwrdd, a gweithgareddau crefft megis peintio brigau coed oedd wedi cwympo.  Roedd y plant yn golchi a diheintio eu dwylo yn rheolaidd gydol y sesiwn, yn ogystal â chyn amseroedd byrbryd a phrydau. Y Gymraeg yn unig gaiff ei defnyddio yn y lleoliad.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae ystod dda o weithdrefnau iechyd a diogelwch priodol ar waith er mwyn sicrhau llesiant y plant. Mae'r holl staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf, hylendid bwyd a diogelu. Mae polisi amddiffyn plant ar waith, a dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym ei fod yn hyderus i werthuso unrhyw risgiau i'r plant ac i gysylltu â'r awdurdod priodol pe bai angen.  Mae'r staff gofal yn cyfrif pennau yn rheolaidd wrth adael y safle, pan fyddant y tu allan a phan fyddant yn dychwelyd i'r adeilad.  Mae'r staff gofal yn glanhau pob arwyneb cyn i'r plant eistedd i lawr i gael eu byrbryd a'u cinio.

Mae'r staff gofal yn cefnogi rhyngweithiadau'r plant yn dda, gan helpu'r plant i gydweithio a dysgu sgiliau cymdeithasol.  Mae'r staff gofal yn eistedd ac yn sgwrsio gyda'r plant, gan ymateb yn addas i drafodaethau. Maent yn atgoffa'r plant hŷn i fod yn feddylgar ac i beidio â rhedeg o dan do. Maent yn cynnig canmoliaeth ac anogaeth serchus gydol y sesiwn. Mae'r staff gofal yn annog y plant sydd ar eu pen eu hunain yn ofalus i ymuno neu'n cynnig chwarae gyda nhw, ond hefyd yn parchu eu dewis i fod ar eu pen eu hunain.

Mae'r staff gofal yn diwallu anghenion unigol y plant gan eu bod yn eu hadnabod yn dda. Maent yn darparu amgylchedd magwrol a gofalgar ac yn darparu gofal ymatebol gan eu bod yn ymwybodol o'r manylion y mae'r rheini wedi'u rhannu am eu plant, ar lafar ac mewn ffurflenni cofrestru, ac yn ymateb iddynt.

Mae'r staff gofal yn hyrwyddo datblygiad y plant drwy gynllunio a darparu profiadau chwarae a dysgu da. Mae'r person â chyfrifoldeb yn cynllunio ar gyfer y tymor byr ac yn gwrando ar yr hyn mae'r plant yn ei awgrymu. Mae'r staff gofal yn rhoi adborth clir ar lafar i'r rhieni pan fyddant yn dod i nôl eu plant.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn saff a chaiff y plant eu goruchwylio yn dda. Mae pob ardal, o dan do a thu allan, yn rhydd rhag peryglon ac mae'r staff gofal yn cwblhau asesiadau risg gweledol yn ddyddiol. Mae pob ymwelydd yn mewngofnodi wrth gyrraedd a gadael. Mae'r staff gofal yn cofnodi’r amseroedd pan fyddant hwy a'r plant yn cyrraedd a gadael yn ddyddiol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd sy'n addas i blant ar gyfer y plant. O dan do, mae'r plant yn defnyddio cadeiriau, byrddau a dodrefn o faint addas. Gall y plant gael mynediad at offer a deunyddiau yn annibynnol. Mae ganddynt hefyd fynediad at ardal awyr agored fawr sy'n cynnwys y cae ysgol a'r iard chwarae gydag offer dringo.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael mynediad at ystod o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da. Mae symiau digonol o weithgareddau a theganau ar gael er mwyn sicrhau bod gan y plant ddewis diddorol. Dywedodd y staff gofal wrthym fod offer newydd wedi cael eu prynu eleni. Mae'r holl deganau a gemau yn cael eu cadw'n lân ac mewn trefn dda ac yn cael eu storio o fewn cyrraedd y plant. Mae’r offer a'r dodrefn yn addas i oedrannau'r plant sy'n mynychu.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da |
|---|---|

Mae’r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hyrwyddo deilliannau da ar gyfer y plant. Mae'r staff gofal yn dweud wrthym eu bod yn hapus a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae arferion cyson ar draws y lleoliad ac mae'r staff gofal yn gweithio'n dda fel tîm. Mae’r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cydymffurfio â rheoliadau. Mae ganddynt ddatganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru sy'n adlewyrchu'r gofal a gynigir.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adnabod y gwasanaeth yn dda. Cadarnhaodd y staff gofal eu bod wedi cael profiad da yn ystod eu cyflogaeth, ac mae rhai wedi bod yno ers amryw o flynyddoedd. Mae’r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgynghori â'r plant a'r staff gofal fel rhan o'r broses werthuso ac yn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer y clwb gwyliau nesaf.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff gofal yn effeithiol trwy oruchwyliaeth reolaidd ar ddiwedd yr haf. Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl ddogfennau ategol cywir a gwnaed gwiriadau cadarn cyn eu cyflogi. Mae'r holl staff cyflogedig yn y gwasanaeth yn siarad Cymraeg.

Caiff y rhieni wybod am ddiwrnod eu plant drwy adborth ar lafar. Dywedodd y rheini wrthym fod y gwasanaeth yn amhrisiadwy a bod eu plant yn mwynhau mynychu a chyfarfod â’u ffrindiau yn ystod y gwyliau.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Sicrhau bod asesiadau risg dyddiol yn cael eu cofnodi.

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i’r darparwr gymryd camau brys i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo’r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio’r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 26/10/2022